Evidence for Excellence in Education

# Gwneud y defnydd gorau o'r profion darllen cendlaethol

Mehefin 2014



independent • insights • breadth • connections • outcomes

Evidence for Excellence in Education

# Cefndir – llinell amser



- 2010 - Comisiynwyd NFER i greu prawf darllen safonedig (Cymraeg a Saesneg ar wahân)
- 2012 – Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn dod i rym + treialu’r profion
- 2013 – Y profion darllen a gweithdrefnau rhifiadol ‘byw’ cyntaf
- 2014 - cyflwyno rhesymu rhifiadol

Evidence for Excellence in Education

# Camau datblygu



**Cam 1**

dewis/creu testunau + sêl bendith LlC

**Cam 2**

treialu anffurfiol ar destunau mewn ysgolion ‘cyfeillgar’

**Cam 3**

ysgrifennu eitemau (h.y. cwestiynau) + sêl bendith LlC

**Cam 4**


treialu eitemau  (100% yn fwy na’r hyn sydd ei angen)

adrodd i LC

**Cam 5**

ail gyn-brawf

adrodd i LC



## Pumpkins



*From pumpkin soup to pumpkin pie, there are many tasty recipes for this king of the vegetable patch. Stir meltingly sweet cubes of fried pumpkin into risottos or curries, offsetting the sweetness with fragrant herbs such as sage or thyme, or warming spices such as ginger.*

*Here is one of our favourite pumpkin recipes – a bowl of this spectacularly delicious soup feels like a cuddle from your granny. You can buy and prepare the pumpkin yourself but if you are short of time then you can also buy pumpkin in a tin – this tends to make the dish smooth and delicious, not to mention convenient. We love the soup made either way, so it's your choice.*



### Preparation and cooking times

- Prep 20 mins
- Cook 25 mins

### Ingredients (Serves 6)

- 2 tablespoons (tbsp) olive oil
- 2 finely chopped onions
- 1kg peeled, deseeded and chopped pumpkin
- 700ml vegetable stock
- 142ml pot of double cream
- a touch of chilli powder

### Method

1. Heat the **2 tbsp of oil** in a large saucepan, then gently cook the two **finely chopped onions** for 5 mins, until soft but not coloured.
2. Add the kilo of **peeled, deseeded and chopped pumpkin** to the pan, then carry on cooking for 8 - 10 mins, stirring occasionally until it starts to soften and turn golden.
3. Pour all **700ml** of **vegetable stock** into the pan, then season with salt and pepper.
4. Bring to the boil, then simmer for 10 mins until the pumpkin is very soft.
5. Pour the **pot of double cream** into the pan, bring back to the boil, then purée with a hand blender. For an extra velvety consistency, you can now push the soup through a fine sieve into another pan.

**!** **Caution:** cutting and peeling a pumpkin is hard work and requires a sharp knife. It's not a job for clumsy people.

## Dewis Capten

Bwli oedd Owain Tomos Treharne. Doedd dim dwywaith amdani. Bwli o'r radd flaenaf. Bwli a ddylai fod yn uwch-gynghrair y bwlis.

Roedd Owain Tomos Treharne (neu OTT i'w ffrindiau prin) wedi perffeithio'i grefft ers ei fod e'n fachgen bach. Roedd e wastad wedi bod *over the top*. Ac roedd clywed rhai eraill yn ei alw'n 'OTT' (O-Ti-Ti) yn fiwsig i'w glustiau.

Yn anffodus mae e wedi byw yn yr un stryd â ni erioed, ac mae ein rhieni ni'n ffrindiau mawr.

Fel yr aeth amser yn ei flaen, daeth yn fwy amlwg i mi ac i'm rhieni (diolch byth!) nad oedd dim byd yn gyffredin rhyngon ni bellach. Dim byd ar wahân i rygbi.

Ac i fod yn deg ag Owain, roedd e'n chwaraewr da – da iawn ar adegau. Ond roedd un agwedd ar ei chwarae'n ei adael i lawr yn ofnadwy.

Roedd e wedi tyfu'n fachgen cryf a chadarn. Roedd e'n dal, gydag ysgwyddau llydan a breichiau cyhyrog a'i goesau fel dau foncyff coeden. Ac roedd e tu hwnt o gyflym. Roedd e'n cael ei gyfri fel yr wythwr gorau yn hanes yr Ysgol gan sawl un. Ond roedd rhai o'r chwaraewyr a'r staff hyfforddi yn dechrau cael llond bola ar ei driciau.

I Owain Treharne, cyfle i frifo ac anafu oedd rygbi. Roedd e fel petai'n gweld pob cyfle i ddamsgen*, neu fwrw neu grafu ei styds ar gyrff ei wrthwynebwyr. Doedd hi'n syndod i neb felly nad oedd Mr Jones, athro chwaraeon yr ysgol, yn teimlo mai fe fydde'r capten gorau i'r tîm.



'Nawr, bois,' meddai Mr Jones yn ddifrifol wrth gyhoeddi ei ddewis. 'Yr un rwy'n gwybod all arwain drwy esiampl yw … Hywel.'

'Y … y … fi, syr?' meddwn i.

'Ie, wrth gwrs,' atebodd yntau.

Anghofia i fyth o'r olwg ar wyneb OTT pan gefais i f'enwi yn gapten. Fe welais ei lygaid yn culhau a'i drwyn yn crychu. Doedd e ddim yn hapus o gwbl. Ddywedodd e ddim byd wrtha i. Ond gallwn weld ei wefusau'n symud a gwyddwn yn iawn mai, 'OTT! OTT! OTT'n rhy dda i ti!' roedd e'n ei ddweud.

Roeddwn i'n gwybod fy hunan nad oeddwn i gystal chwaraewr â rhai o'r lleill yn y tîm, ond doedd neb yn teimlo unrhyw beth yn fy erbyn i. Neb ond Owain Treharne, wrth gwrs.

Roeddwn i'n gwybod bod fy newis i yn gapten yn dân ar ei groen e. Roeddwn i'n teimlo mai disgwyl ei gyfle roedd e, bod ganddo ryw gynllun neu'i gilydd yn gwreiddio yn ei feddwl a'i fod yn aros am ei gyfle i ddial.

damsgen* – sathru/sefyll ar

# Egwyddorion – y darnau darllen

Evidence for Excellence in Education



- testun diddorol/o fewn profiad dysgwyr
- addas i'r oedran
- angen ystyried rhyw / cefndir ethnig / crefydd / anabledd / gwlad a thref ayyb
- iaith 'niwtral' - yn enwedig ar gyfer Bl 2-3
- osgoi cyfieithiadau/addasiadau
- osgoi testunau rhy gyfarwydd/enwog
- hyd – Bl 2-3 tua 300-350 o eiriau. Bl 4-9 angen cadw at un ochr A4

# Egwyddorion – eitemau (cwestiynau)



Evidence for Excellence in Education

- profi gwahanol sgiliau darllen
- cwestiynau ymateb caeedig yn unig – 6 prif ddull
- cwestiynau ymateb estynedig dewisol (2013)

http://learning.wales.gov.uk/resources/extended-responses/?lang=cy

- 1 marc neu 2 farc
- cynllun marcio caeth/diamwys er mwyn sicrhau cysondeb sgorio

Evidence for Excellence in Education

# Dull a ffocws cwestiynau



## Dull

- **aml ddewis** – ticio 1/2/3
- **aml ddewis darn caeedig**
- **dewis a chopïo** – 1/2/3 llinell
- **tanlinellu**
- **cyfateb**
- **labelu**/ffacsimili
- **llenwi tabl** – e.e. cywir/anghywir
- **trefnu** (e.e. digwyddiadau)

## Ffocws

- adennill syml
- tynnu casgliadau
- nodweddion cyflwyniadol
- strwythur testun
- nodweddion iaith
- techneg awdur

# Creu cynllun marcio

Evidence for Excellence in Education



- adnabod yr ymatebion posibl
- treialu'r eitemau
- codio'r ymatebion (yn electronig)
- dadansoddi'r ymatebion
- adrodd i LC ar y canlyniadau
- dewis eitemau terfynol
- mireinio'r cynllun marcio



# Sut mae mapio i'r fframwaith?

Evidence for Excellence in Education

| Darllen yn y fframwaith | Y profion darllen |
|---|---|
| **Elfennau**<br>• Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth<br>**Agweddau**<br>• Strategaethau darllen,<br>• Darllen a deall<br>• Ymateb a dadansoddi | • adennill syml<br>• tynnu casgliadau<br>• nodweddion cyflwyniadol<br>• strwythur testun<br>• nodweddion iaith<br>• techneg awdur |

Evidence for Excellence in Education

# Yr hyn a gytunwyd

| Elfen: | Agweddau: | Dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | Strategaethau darllen | • Defnyddio sgiliau dadgodio, a gwybodaeth am ystyr neu strwythur geiriau wrth ddehongli brawddegau |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | Darllen a deall | • Adalw syniadau a/neu wybodaeth<br>• Tynnu casgliadau<br>• Dehongli a/neu gyfosod syniadau a/neu wybodaeth |
| | Ymateb a dadansoddi | • Gwerthuso strwythur a/neu gyflwyniad a/neu drefn testun<br>• Gwerthuso iaith |

Evidence for Excellence in Education

W2/3 v1

**Pobl sy'n ein helpu ni 3 Clerical E**

| **Blwyddyn** | 2/3 | 4/5 | 6/7 | 8/9 |
|---|---|---|---|---|

**Testur** Pobl sy'n ein helpu ni **Enw'r eitem** W23PH15

**Marciau 1**

**Math o eitem**

| | | |
|---|---|---|
| Aml ddewis - dewis 4 blwch | Canfod a chopïo - 1 llinell | Diagram wedi ei labelu/ffacsimili |
| Aml ddewis – dewis 5 blwch | Canfod a chopïo - 2 llinell | Cywir/anghywir |
| Aml ddewis – dewis 6 blwch | Canfod a chopïo - 3 llinell | Cysylltu |
| Aml ddewis – dam caeedig | Gosod mewn trefn | Llenwi tabl |
| | Cwblhau trefnu | |

**Ffocws y cwestiwn**

| | | |
|---|---|---|
| Adennill syml | Nodweddion cyflwyniadol | Nodweddion iaith |
| Tynnu casgliadau | Strwythur testun | Techneg awdur |

Tynnwch **3** llinell i gysylltu'r peth â'r gair sy'n ei ddisgrifio.

| | |
|---|---|
| dillad gaeaf Mr Williams | llachar |
| y tywydd yn y gaeaf | trwchus |
| cot Mr Williams | oer |

**Cynllun marcio arfaethedig**

---

**Coding**

Rhowch **1 marc** am:

| | | | |
|---|---|---|---|
| a | dillad gaeaf Mr Williams | llachar | 1 |
| b | y tywydd yn y gaeaf | trwchus | 2 |
| c | cot Mr Williams | oer | 3 |

Cod 1 = llachar
Cod 2 = trwchus
Cod 3 = oer

Cywir = 2,3,1

Evidence for Excellence in Education

EA1Q4 Data Capture

**Blwyddyn** 2/3 4/5 6/7 8/9

**Testur** Everest amdani! **Enw'r eitem** W89EA16
**Marciau 1**

**Item type**

| | | |
|---|---|---|
| Aml ddewis - dewis 4 blwch | Canfod a chopïo - 1 linell | Diagram wedi ei labelu/ffacsimili |
| Aml ddewis – dewis 5 blwch | Canfod a chopïo - 2 linell | Cywir/anghywir |
| Aml ddewis – dewis 6 blwch | Canfod a chopïo - 3 llinell | Cyfateb |
| Aml ddewis – dam caeedig | Trefnu | Llenwi tabl |
| | Tanlinellu | |

**Ffocws y cwestiwn**

| | | |
|---|---|---|
| Adennill syml | Nodweddion cyflwyniadol | Nodweddion iaith |
| Tynnu casgliadau | Strwythur testun | Techneg awdur |

*'Oes, mae lle i ddau,' medd y gyrrwr gan edrych arnom wrth bwyso a mesur faint o ddoleri y gall eu ryddhau o'n pocedi.*

Beth mae'r awdur yn awgrymu am y gyrrwr yn y frawddeg uchod?

**Ticiwch 1.**

- bod y gyrrwr yn mynd i werthu rhywbeth i'r Cymry ifanc ☐
- bod y gyrrwr yn amheus o'r Cymry ifanc ☐
- bod y gyrrwr yn cymryd mantais o'r Cymry ifanc ☐
- bod y gyrrwr yn ceisio helpu'r Cymry ifanc ☐

**Cynllun marcio arfaethedig**

- bod y gyrrwr yn mynd i werthu rhywbeth i'r Cymry ifanc ☐
- bod y gyrrwr yn amheus o'r Cymry ifanc ☐
- bod y gyrrwr yn cymryd mantais o'r Cymry ifanc ✓
- bod y gyrrwr yn ceisio helpu'r Cymry ifanc ☐

Evidence for Excellence in Education

# Eich cyfle chi i greu cwestiynau!

- Grwpiau o 3-4
- Templed 'Ysgrifennu eitemau'
- Darn darllen

**Cam 1** – darllen y darn gan nodi rhannau posibl ar gyfer cwestiynu

**Cam 2** – penderfynu ar ffocws y cwestiwn

**Cam 3** – penderfynu ar y dull cwestiynu

**Cam 4** – creu eich cwestiwn/cwestiynau (yn unigol/mewn parau/fel grŵp)

Evidence for Excellence in Education

## Ysgrifennu eitemau

**Blwyddyn** 2/3 4/5 6/7 8/9

**Testun**

**Enw'r eitem**

**Marciau**

**Math o eitem**

Aml ddewis - dewis 4 blwch
Aml ddewis – dewis 5 blwch
Aml ddewis – dewis 6 blwch
Aml ddewis – darn caeedig
Dewis a chopïo - 1 linell
Dewis a chopïo - 2 linell
Dewis a chopïo - 3 llinell
Trefnu
Tanlinellu
Diagram wedi ei labelu/ffacsimili
Cywir/anghywir
Cyfateb
Llenwi tabl

**Ffocws y cwestiwn**

Adennill syml
Tynnu casgliadau
Nodweddion cyflwyniadol
Strwythur testun
Nodweddion iaith
Techneg awdur

**Cynllun marcio arfaethedig**

Evidence for Excellence in Education

# Beth yw pwrpas y profion?



- atebolrwydd – adrodd ar berfformiad ysgol?
- codi safonau llythrennedd?
- adrodd i rieni ar gynnydd eu plant?
- darparu sgôr crai?
- asesu oed darllen?
- cymharu perfformiad disgyblion?
- adnabod cryfderau a gwendidau a symud disgyblion ymlaen yn eu darllen – asesu ar gyfer dysgu



# Darllen PISA 2012

Evidence for Excellence in Education

Sgôr Cyfartalog yr OECD 496 *(493)*

| | |
|---|---|
| Y Deyrnas Unedig | 499 *(494)* |
| • Yr Alban | 506 *(500)* |
| • Lloegr | 500 (495) |
| • Gogledd Iwerddon | 498 *(499)* |
| • Cymru | 480 *(476)* |

*Ffigurau 2009 mewn cromfachau*

Gwledydd (allan o 51) a berfformiodd yn arwyddocaol

well: 31 yr un peth: 10 is: 10

# Darllen – penawdau 2009 a 2012

Evidence for Excellence in Education

- ‘Myfyrio a gwerthuso’ oedd y sgôr uchaf
- Cymedr uwch ar gyfer ‘darnau byrion’ – yn debyg i lawer o wledydd eraill
- Ystod o gyrhaeddiad – llai ar y lefel uwch a mwy â sgôr is na chyfarteledd yr OECD
- Gwahaniaeth bach iawn rhwng perfformiad bechgyn a merched ( 27 pwynt ) o’i gymharu â chyfataledd yr OECD (38)

Evidence for Excellence in Education

# Eitemau'r holiadur (2009)

- Chi
- Eich teulu  a'ch cartref
- Gweithgareddau darllen
- Amser dysgu
- Yr ystafell ddosbarth ac awyrgylch yr ysgol
- Eich gwersi Cymraeg/Saesneg
- Llyfrgelloedd
- Strategaethau ar gyfer darllen a deall testun

Evidence for Excellence in Education

# Agweddau disgyblion at ddarllen yng Nghymru - 2009

- Ddim yn gadarnhaol – ond yn debyg i weddill y gwledydd yn yr OECD
- Cydberthyniad rhwng agwedd at ddarllen a sgôr darllen yn y prawf
- Darllen mwy o gylchgronau/papurau newydd na ffuglen – mwy o amser yn yr ysgol ar ddarnau byrion
- Sgwrsio ar-lein a darllen e-byst yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr OECD
- Gallu gwrthsefyll anfantais yn well.

Evidence for Excellence in Education

# Negeseuon PISA – adroddiadau ffocws



- Mae darllen er pleser bob dydd yn arwain at sgoriau uwch yn PISA.
- Plant â rhieni sy’n darllen iddynt yn y babanod ac yn cymryd diddordeb yn eu haddysg yn gwneud yn well yn PISA.
- Perfformiad mewn darllen yn effeithio ar agwedd tuag at yr ysgol yn gyffredinol.
- Ffynhonnell: http://www.oecd.org/pisa/pisaproducts/pisainfocus.htm

nfer

Evidence for Excellence in Education

# Dysgu *sut* i ddysgu



- Mae strategaethau ar gyfer darllen yn gallu gwella perfformiad darllen.
- Mae sgiliau crynhoi'n holl bwysig.
- Mae sgiliau dysgu *sut* i ddysgu'n gallu helpu disgyblion o gefndir difreintiedig i wella'n sylweddol.
- http://www.oecd.org/pisa/pisaproducts/pisainfocus/pisa%20in%20focus%20n30%20(eng)--Final.pdf
- Mewn mathemateg mae cymhelliant yn holl bwysig a setio disgyblion yn cael effaith negyddol ar gymhelliant.
- Mae plant gweithwyr ffatri Shanghai yn perfformio'n well na phlant pobl broffesiynol yn y DU.
- Mae llawer o ddisgyblion yng Nghymru'n credu mai talent mewn pwnc sy'n bwysig nid gwaith caled ac athrawon da.

# Estyn ar ddysgu sut i ddysgu

Evidence for Excellence in Education

- Adroddiad ar safonau Saesneg (Mehefin 2014):

- ‘…nid yw’r mwyafrif o ysgolion yn rhoi ‘strategaethau asesu ar gyfer dysgu’ ar waith yn ddigon cyson nac effeithiol.’

http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewerw/314577.9/Saesneg%20yng%20nghyfnodau%20allweddol%202%20a%203%20-%20Mehefin%202014/?navmap=30,163

# Dadansoddiad diagnostig

nfer
Evidence for Excellence in Education

**Er mwyn edrych y tu hwnt i'r sgor crai a'r oed darllen, ceir offeryn dadansoddi ar lefel cwestiwn at ddefnydd athrawon ar ôl y cyfnod marcio:**

**http://dysgu.cymru.gov.uk/resources/national-reading-tests-and-lnf-diagnostic-support-tool/?lang=cy**

# Enghraifft o ddadansoddiad

Evidence for Excellence in Education

| Canlyniadau dosbarth fesul cwestiwn | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cwestiwn** | **% yr atebion cywir** | **Elfen yn y Fframwaith** | **Agwedd a asesir** |
| **Dewis Capten** | | | **Darllen a deall 5 Ymateb a dadansoddi 5** |
| **1** | 80% | Darllen a deall | Adalw syniadau a/neu wybodaeth |
| **2** | 60% | Darllen a deall | Dehongli a/neu ddod i gasgliad |
| **3** | 50% | Ymateb a dadansoddi | Gwerthuso strwythur a/neu gyflwyniad a/neu drefn testun |
| **4** | 70% | Ymateb a dadansoddi | Gwerthuso iaith |
| **5** | 60% | Ymateb a dadansoddi | Gwerthuso iaith |
| **6** | 70% | Ymateb a dadansoddi | Gwerthuso iaith |
| **7** | 30% | Darllen a deall | Dehongli a/neu ddod i gasgliad |
| **8** | 50% | Darllen a deall | Dehongli a/neu gyfuno syniadau a/neu wybodaeth |
| **9** | 80% | Ymateb a dadansoddi | Gwerthuso strwythur a/neu gyflwyniad a/neu drefn testun |
| **10** | 60% | Darllen a deall | Dehongli a/neu gyfuno syniadau a/neu wybodaeth |

# Dolenni perthnasol

Evidence for Excellence in Education

- Adroddiad technegol ar y profion darllen:

http://dysgu.cymru.gov.uk/resources/technical-information/?lang=cy

- Adroddiad ar y treial safoni:

http://dysgu.cymru.gov.uk/resources/standardisation-of-nrt-report/?lang=cy

Gwefan PISA yr OECD:

http://www.oecd.org/pisa/aboutpisa/

Adroddiad 2012 – Cymru:

http://www.nfer.ac.uk/pisa/PISA-2012-in-the-UK.cfm

Evidence for Excellence in Education

j.nicholas@nfer.ac.uk

http://www.nfer.ac.uk/about-nfer/departments/uned-gymraeg.cfm

http://www.nfer.ac.uk/